# SL(5)643 – Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn atodol i Reoliadau Gwastraff (Economi Gylchol) (Diwygio) 2020 ("Rheoliadau'r DU") ac mae'n ofynnol eu cael er mwyn gwneud nifer o ddiwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol a is-ddeddfwriaeth penodol Cymru, i sicrhau cysondeb, ac er mwyn trosi newidiadau a gyflwynwyd gan Becyn Economi Gylchol yr UE ("y Pecyn").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diweddaru cyfeiriadau yn neddfwriaeth Cymru at ddwy o Gyfarwyddebau'r UE sydd wedi'u diwygio fel rhan o'r Pecyn, er mwyn cyfeirio at y fersiynau diweddaraf o'r Cyfarwyddebau hynny. Maen nhw hefyd yn diwygio Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 er mwyn rhoi rhwymedigaethau eraill yr UE ar waith sy'n deillio o'r Pecyn.

Mae'r ddarpariaeth a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gyfwerth, i bob pwrpas, â'r ddarpariaeth a wneir gan Reoliadau'r DU mewn perthynas â deddfwriaeth Lloegr yn unig.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn y fersiwn Saesneg o reoliad 4(7)(a), nid yw'r dyfynodau sy'n dynodi'r geiriad sydd i'w amnewid yn y lle cywir – dylai'r dyfynnod agoriadol ddod o flaen "Council", nid "for". Er y gall y darllenydd gasglu'r hyn sydd i'w amnewid, nid yw'r ddarpariaeth fel y'i drafftiwyd yn mynegi hyn yn glir.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*Penderfynodd llywodraethau Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r DU y bydd y mesurau hyn yn cael eu trosi fel y disgrifir yn y datganiad cyhoeddus ar y cyd, heb ymgynghoriad ffurfiol, o ystyried bod y newidiadau'n gymharol fân a thechnegol.*
>
> *Fodd bynnag, cynhaliwyd rhywfaint o ymgysylltu ysgafn â chynrychiolwyr o'r sector tirlenwi a llosgi ledled Cymru a Lloegr. Nod y trafodaethau hyn oedd rhoi gwybod i'r diwydiant am y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig a sut byddent yn cael eu rhoi ar waith, ac i ofyn am eu barn ar y newidiadau hynny.*"

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r troednodyn i reoliad 5(1) yn cyfeirio at Reoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011, ond ymddengys ei fod yn dyfynnu'r rhif OS anghywir. Rydym yn tybio y dylai'r cyfeirnod fod yn "O.S. 2011/725 (*Cy.152*)" [*ychwanegwyd y pwyslais*] nid "O.S. 2011/725 (Cy.154)".

Derbynnir nad yw'r troednodyn yn rhan o'r gyfraith. Fodd bynnag, os mai diben ei gynnwys yw cynorthwyo darllenydd, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r cyfeirnod yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r rheoliadau cywir.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Bydd y Rheoliadau hyn yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu Technegol 1:**

Er bod Llywodraeth Cymru yn credu bod y bwriad yn glir, mae'r pwynt yn tynnu sylw at wall drafftio y byddwn yn ei gywiro pan ddaw'r cyfle addas nesaf.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:**

Mae'r pwynt yn tynnu sylw at wall drafftio, er nad yw'n newid y gyfraith, fel y nodir. Yn wir, o gofio bod y troednodyn yno i gynorthwyo'r darllenydd, credwn bod rhif yr O.S. yn cyflawni hyn, heb berygl o ddryswch difrifol. Serch hynny, byddwn yn cywiro hyn pan ddaw'r cyfle addas nesaf, er mwyn cynorthwyo'r darllenydd.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**5 Tachwedd 2020**